I S - D D E D D F W R I A E T H   C Y M R U

# LIC25-64

## BWYD, CYMRU

## CYNHYRCHION A REOLEIDDIR, CYMRU

### DEUNYDDIAU CYSWLLT BWYD

Pennu statws awdurdodi: awdurdodi’r defnydd o asid ffosfforig, esterau cymysg â 2-*hydroxyethyl methacrylate* mewn deunyddiau plastig ac eitemau eraill sydd i ddod i gysylltiad â bwyd

**Nodyn egluro**

*(nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r penderfyniad)*

Gwnaed y penderfyniad hwn ar gyfer Cymru gan Weinidogion Cymru yn arfer y pwerau a roddwyd gan Erthygl 11 o Reoliad (EC) Rhif 1935/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ddeunyddiau ac eitemau sydd i ddod i gyswllt â bwyd (EUR 2004/1935).

Mae'n awdurdodi'r defnydd o sylwedd asid ffosfforig, esterau cymysg gyda 2-*hydroxyethyl methacrylate* mewn deunyddiau ac eitemau plastig fydd yn dod i gysylltiad â bwyd. Mae telerau'r awdurdodiad a'r amodau a'r cyfyngiadau y mae'r deunydd sy'n dod i gysylltiad â bwyd yn cael ei awdurdodi oddi tanynt wedi'u nodi yn yr Atodlen.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sydd yn gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau mewn materion diogelwch bwyd (EUR 2002/178).

---

# Penderfyniad

**Cymhwyso a dod i rym**

1. Mae'r penderfyniad hwn yn berthnasol i Gymru, a daw i rym ar 13eg Hydref 2025.

**Dehongliad**

2. Mae unrhyw ymadrodd a ddefnyddiwyd yn y penderfyniad hwn ac sy’n cael eu defnyddio yn Rheoliad (EU) Rhif 10/2011 ar ddeunyddiau ac eitemau plastig

sydd i ddod i gysylltiad â bwyd, eu bod nhw’n rhannu yr un ystyr ag sydd ganddynt yn y Rheoliad hwnnw.

**Pennu statws awdurdodi asid ffosfforig, esterau cymysg â 2-*hydoxyethyl methacrylate***

3. Mae'r defnydd o sylwedd asid ffosfforig, esterau cymysg â 2-*hydoxyethyl methacrylate* wedi'i awdurdodi mewn deunyddiau plastig ac eitemau sydd ddod i gysylltiad â bwyd, yn amodol ar fodloni’r amodau, y cyfyngiadau a'r fanyleb a nodir yn yr Atodlen.

Sarah Murphy

Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

6 Hydref 2025

# ATODLEN

| Rhif Sylwedd y Deunydd sy'n Dod i Gyswllt â Bwyd | Cyfeir-nod | Rhif Cofrestrfa y Chemical Abstract Service[1] (CAS) | Enw'r sylwedd | A yw'n cael ei ddefnyddio fel ychwanegyn neu gymorth i gynhyrchu polymerau (ydy/nac ydy) | A yw'n cael ei ddefnyddio fel monomer neu sylwedd cychwynnol arall neu'n macro moleciwl a geir o eplesu microbaidd (ydy/nac ydy) | A yw'r Ffactor Lleihau'r Braster mewn Bwyd yn berthnasol (ydy/nac ydy) | Terfyn Mudo Penodol [mg/kg] | Terfyn Mudo Penodol [mg/kg] (Rhif Cyfyngiad Grŵp) | Cyfyngiadau a manylebau | Nodiadau ar wirio cydymffurfiaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1082 | | 52628-03-2 | Asid ffosfforig, esterau cymysg â 2-*hydoxyethyl methacrylate* | nac ydy | ydy | nac ydy | 0.05 | | I'w ddefnyddio hyd at 0.35% (w/w) ar gyfer gweithgynhyrchu *polymethylmethacrylate* yn unig.<br>Mynegir y Terfyn Mudo Penodol (SML) fel cyfanswm y monoesterau, diesterau a thriesterau asid ffosfforig a'r monoesterau, diesterau, triesterau a | |

[1] https://cas.org/cas-data/cas-registry

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | thetraesterau asid deuffosfforig. | |